Mae’r dull adolygu hwn yn cydymffurfio â’r ESG

# Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol: Proses Adolygu Rhannol

## Canllawiau i Ddarparwyr, Timau Adolygu QAA a Swyddogion QAA

Rhagfyr 2025

Mae'r ddogfen hon wedi'i chyhoeddi yn y Gymraeg a’r Saesneg

| Cam Gweithredu | Dyddiad | Cyfrifoldebau |
|---|---|---|
| Canllawiau wedi'u cymeradwyo | Tachwedd 2025 | Grŵp Asesu ac Adolygu |
| | | |

**Cydymffurfedd ag ESG**

Mae'r Safonau a'r Canllawiau ar gyfer Sicrhau Ansawdd yn Ardal Addysg Uwch Ewrop (ESG) yn darparu'r fframwaith ar gyfer sicrhau ansawdd mewnol ac allanol yn Ardal Addysg Uwch Ewrop. Mae dulliau adolygu QAA yn cydymffurfio â'r safonau hyn, fel y mae'r adroddiadau a gyhoeddwn. Mae mwy o wybodaeth ar gael ar ein gwefan.

## Meini prawf Adolygiad Rhannol

1 Mae darparwyr yn destun Adolygiad Rhannol os ydynt wedi derbyn canlyniad aflwyddiannus o'r Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol (EOR) ac nad yw unrhyw benderfyniad apêl perthnasol wedi newid y canlyniad. Canlyniadau aflwyddiannus EOR yw:

- ar gyfer darparwyr a aseswyd yn erbyn y gydran Graidd: mae **camau gweithredu yn ofynnol** gan y darparwr **i fodloni** gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol
- ar gyfer darparwyr a aseswyd yn erbyn y gydran Lawn: mae **camau gweithredu yn ofynnol** gan y darparwr **sy'n cyd-fynd yn llawn** ag Egwyddorion Cytunedig y Sector o God Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch

## Diben y ddogfen hon

2 Diben y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth ychwanegol i ddarparwyr, timau adolygu QAA a Swyddogion QAA (QAAOs) i'r hyn sy'n ymddangos yn y Canllawiau Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol i Ddarparwyr ynghylch y broses ar gyfer cynnal Adolygiad Rhannol. Nod y ddogfen hon yw darparu fframwaith y dylai'r broses ddilynol ddigwydd ynddo, gan alluogi pob parti i gynllunio a chyfrannu'n effeithiol. Fe'i cyhoeddir ar wefan QAA yn unol â'n hymrwymiadau i fod yn agored a thryloyw.

## Y broses Adolygiad Rhannol

3 Bydd gofyn i ddarparwyr gyflwyno cynllun gweithredu o fewn pedair wythnos i dderbyn eu hadroddiad EOR terfynol, gan amlinellu sut maent yn bwriadu mynd i'r afael â'r holl amodau ac argymhellion. Bydd methu â chwrdd â'r dyddiad cau hwn, yn arwain at y tîm yn dod i'r casgliad bod canlyniad yr adolygiad yn aflwyddiannus, a bydd yr adroddiad cyhoeddedig yn cael ei ystyried yn derfynol. Dylid lanlwytho cynlluniau gweithredu i ffolder dogfennaeth gyfrinachol a rennir, a bydd cyfarwyddiadau pellach ar fynediad i'r ffolder yn cael eu darparu gan y Swyddog QAA.

4 Ar ôl ei dderbyn, bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ystyried i benderfynu a yw'n gredadwy ac yn gyraeddadwy mewn perthynas â'r materion a nodwyd. Fel arfer, bydd hyn yn cael ei wneud gan y tîm a gynhaliodd yr adolygiad gwreiddiol, er y gall fod amgylchiadau lle na fydd hyn yn bosibl. Os na ystyrir ei fod yn gredadwy, bydd y cynllun gweithredu yn cael ei ddychwelyd i'r darparwr gydag awgrymiadau ar gyfer diwygio a bydd dyddiad cau ar gyfer ailgyflwyno yn cael ei gadarnhau.

5 Os ystyrir ei fod yn gredadwy, bydd y ffordd fwyaf priodol o adolygu'r newidiadau y mae'r darparwr yn bwriadu eu gwneud yn cael ei sefydlu. Gall hyn fod drwy asesiad desg, neu drwy ymweliad, a all gael ei gynnal naill ai ar-lein neu ar y safle. Bydd y penderfyniad hwn yn seiliedig ar natur debygol y dystiolaeth, er enghraifft gellid adolygu tystiolaeth ddogfennol drwy asesiad desg, ond os oes angen cyfarfodydd â rhanddeiliaid neu os yw adnoddau neu gyfleusterau ffisegol yn cael eu hadolygu yna gallai ymweliad ar-lein neu ar y safle fod yn fwy priodol. Bydd y penderfyniad ar hygrededd y cynllun gweithredu a natur y gweithgaredd adolygu yn cael ei gyfleu gan y Swyddog QAA yn ysgrifenedig o fewn pythefnos i'w gyflwyno. Yna dylid cyhoeddi'r cynllun gweithredu ar wefan y darparwr, a darparu dolen i'r Swyddog QAA a fydd yn cael ei hychwanegu at dudalen y darparwr ar wefan QAA.

6 Bydd gan y darparwr uchafswm o chwe mis i gwblhau'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â'r amod(au) a amlinellir yn eu cynllun gweithredu a chyflwyno eu tystiolaeth i

gefnogi'r camau gweithredu a gymerwyd i QAA drwy'r ffolder dogfennau cyfrinachol a rennir. Gall darparwyr gyflwyno eu cynllun gweithredu a'u tystiolaeth wedi'u cwblhau yn gynharach na'r dyddiad cau os ydynt yn dymuno a dylent hysbysu'r Swyddog QAA unwaith y bydd eu cyflwyniad wedi'i gwblhau.

7 Unwaith y bydd y cyflwyniad wedi'i gwblhau, bydd amseriad y gweithgaredd Adolygiad Rhannol yn dibynnu ar argaeledd y tîm adolygu. Unwaith y bydd aelodaeth ac argaeledd y tîm Adolygiad Rhannol wedi'u cadarnhau, bydd y Swyddog QAA yn cysylltu â'r darparwr i gadarnhau'r amserlenni ar gyfer y gweithgaredd adolygu. Lle bo'n bosibl, y tîm Adolygiad Rhannol fydd yr un tîm a gynhaliodd yr adolygiad gwreiddiol. Fel arfer bydd y gweithgaredd Adolygiad Rhannol yn cymryd rhwng un a dau ddiwrnod i'w gwblhau.

8 Nid oes angen mynd i'r afael â chamau gweithredu sy'n mynd i'r afael ag **argymhellion** yr adroddiad EOR o fewn yr amserlen o 6 mis a byddant yn cael eu craffu yn ystod cyfnod Monitro'r broses EOR, os cyflawnir canlyniad Adolygiad Rhannol llwyddiannus.

9 Unwaith y bydd y gweithgaredd Adolygiad Rhannol wedi'i gynnal, bydd barn gyffredinol yn cael ei chadarnhau, fel yr amlinellir isod.

**Ar gyfer darparwyr a aseswyd yn erbyn y gydran Graidd**

- Mae'r darparwr **yn bodloni** gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol.

neu

- **Nid yw'r darparwr yn bodloni** gofynion sicrhau ansawdd y Swyddfa Gartref ar gyfer goruchwyliaeth addysgol.

**Ar gyfer darparwyr a aseswyd yn erbyn y gydran Lawn**

- Mae'r darparwr **wedi'i alinio'n llawn** ag Egwyddorion Cytunedig y Sector o God Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch.

neu

- **Nid yw'r darparwr wedi'i alinio** ag Egwyddorion Cytunedig y Sector o God Ansawdd y DU ar gyfer Addysg Uwch.

10 Bydd y tîm adolygu yn ysgrifennu atodiad i'r adroddiad EOR cyhoeddedig yn manylu ar y broses Adolygiad Rhannol a'r farn gyffredinol. Bydd cyfle gan y darparwr i wirio'r atodiad am gywirdeb ffeithiol. Ar ôl ei gadarnhau, bydd yr adroddiad terfynol, sy'n cynnwys yr atodiad, yn cael ei ailgyhoeddi ar wefan QAA a bydd y Swyddog QAA yn hysbysu'r darparwr o'r cyhoeddiad.

11 Ar gyfer adolygiadau sy'n cynnwys darparwyr Categori A, bydd QAA yn hysbysu Fisâu a Mewnfudo'r DU am ganlyniad yr Adolygiad Rhannol.

12 Yn dilyn diwedd yr Adolygiad Rhannol, dylai'r darparwr ddiweddaru ei gynllun gweithredu cyhoeddedig. Dylai pob cam gweithredu parhaus aros ar y cynllun gweithredu i'w ystyried yn y pwynt Monitro Blynyddol nesaf.

## Amserlen ddangosol

| **Wythnosau gwaith dangosol** | **Gweithgaredd** |
|---|---|
| Wythnos 0 | • Mae QAA yn cadarnhau'r adroddiad terfynol; os yw'r canlyniad yn aflwyddiannus, mae'r darparwr yn ystyried a yw'n bwriadu apelio |
| +2 wythnos | • Nid yw'r darparwr yn apelio yn erbyn y canlyniad EOR ac mae’n mynd i mewn i broses Adolygiad Rhannol |
| +2 wythnos | • Mae QAA yn cadarnhau cyhoeddi’r adroddiad a dyddiadau allweddol Adolygiad Rhannol |
| +4 wythnos | • Mae'r darparwr yn cyflwyno cynllun gweithredu i'w adolygu gan QAA |
| +6 wythnos | • Mae QAA yn hysbysu'r darparwr am ofynion derbyn neu ddiwygio'r cynllun gweithredu ac yn cadarnhau natur y gweithgaredd dilynol (asesiad desg, ymweliad ar-lein neu ymweliad ar y safle) |
| +7 wythnos | • Lle gofynnwyd am ddiwygiadau, mae'r darparwr yn ailgyflwyno cynllun gweithredu diwygiedig |
| +12 wythnos | • Mae'r darparwr yn cyhoeddi cynllun gweithredu ar ei wefan ac yn cadarnhau ei gyhoeddiad i QAA |
| +24 wythnos | • Mae'r darparwr yn cyflwyno cynllun gweithredu wedi'i gwblhau gyda sylwadau a thystiolaeth ategol |
| +25 wythnos | • Mae QAA yn ymgymryd â gweithgaredd Adolygiad Rhannol (1-2 diwrnod) |
| +27 wythnos | • Mae QAA yn rhannu atodiad drafft gyda'r darparwr i wirio cywirdeb ffeithiol |
| +29 wythnos | • Mae QAA yn cadarnhau canlyniad Adolygiad Rhannol i'r darparwr |
| +31 wythnos | • Atodiad QAA a chadarnhad cyhoeddi i'r darparwr<br>• Darparwyr Categori A: Mae QAA yn hysbysu'r Swyddfa Gartref o ganlyniad yr Adolygiad Rhannol<br>• Mae'r darparwr yn diweddaru ei gynllun gweithredu cyhoeddedig i adlewyrchu canlyniad yr Adolygiad Rhannol |

## Ffioedd

13 Caiff amserlen ffioedd QAA ar gyfer EOR ei diweddaru'n flynyddol. Cyhoeddir yr amserlen ar wefan QAA. Mae ffi Monitro Blynyddol safonol EOR yn berthnasol i ddarparwyr sy'n destun Adolygiad Rhannol.

## Apeliadau a chwynion

14 Mae QAA yn gwahaniaethu rhwng apeliadau (a elwir hefyd yn gynrychioliadau) a chwynion. Mae gweithdrefnau apeliadau a chwynion ffurfiol wedi'u cynllunio i sicrhau nad oes gwrthdaro buddiannau ac fe'u trinnir gan dîm Llywodraethu QAA. Ni fydd unrhyw un sy'n ymwneud â phenderfynu canlyniad apêl neu gŵyn wedi bod â chysylltiad blaenorol â'r mater.

15 Am fanylion pellach ynghylch gweithdrefnau apeliadau neu gwynion QAA, cyfeiriwch at Adolygiad ar gyfer Goruchwyliaeth Addysgol: Canllawiau i Ddarparwyr Atodiad 7.

## Prosesau dilynol

16 Mae'r broses Adolygiad Rhannol yn disodli'r gydran Monitro Blynyddol o EOR ar gyfer y flwyddyn academaidd y mae'n digwydd ynddi. Ni fydd Adolygiad Rhannol yn ailosod y cylch pedair blynedd o adolygiadau llawn, a bydd yr adolygiad llawn nesaf yn digwydd pedair blynedd ar ôl yr adolygiad llawn flaenorol.

Cyhoeddwyd – Rhagfyr 2025

© Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch 2025
Rhifau elusen gofrestredig 1062746 ac SC037786
+44(0)1452 557000 (neges llais yn unig)
[www.qaa.ac.uk](http://www.qaa.ac.uk)